

Safonau Newydd ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl mewn Carchardai yng Nghymru

Amlinellodd y [Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd mewn Carchardai](#) flaenoriaethau y cytunwyd arnynt (rhwng Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) yng Nghymru) er mwyn gwella iechyd a llesiant dynion sydd yn y carchar yng Nghymru. Un o'r blaenoriaethau yw datblygu safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl. Mae'r **Safonau Cyffredinol** a nodir yn y ddogfen hon yn gweithredu fel fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwasanaethau iechyd meddwl mewn carchardai drwy broses hunanadolygu ac adolygu gan gymheiriaid. Addaswyd y safonau o safonau Rhwydwaith Ansawdd Gwasanaethau Iechyd Meddwl mewn Carchardai (QNPMHS) Canolfan Gwella Ansawdd (CCQI) Coleg Brenhinol y Seiciatryddion.

Cyflwynir y safonau gan adran ar **Amgylcheddau Galluogi**, sy'n seiliedig ar ddeg o werthoedd, y credir bod pob un ohonynt yn ffactor mewn amgylcheddau seicogymdeithasol cadarnhaol.

Caiff yr adran ei chynnwys ar y safonau ar gyfer gofal iechyd meddwl 24 awr mewn carchardai, ar gyfer gwasanaethau sy'n darparu ar gyfer cleifion mewnol neu sydd â chyfleusterau gofal ychwanegol.

Pennir pob maen prawf fel Math 1, 2 neu 3.

- Math 1: Safonau hanfodol. Byddai methu â chyrraedd y safonau hyn yn peri bygythiad sylweddol i ddiogelwch, hawliau neu urddas cleifion a/neu'n torri'r gyfraith. Mae'r safonau hyn hefyd yn cynnwys hanfodion gofal, gan gynnwys darparu gofal a thriniaeth ar sail tystiolaeth.
- Math 2: Safonau disgwyliedig y dylai pob gwasanaeth eu cyrraedd.
- Math 3: Safonau dymunol y dylai gwasanaethau perfformiad uchel eu cyrraedd.

Ceir safonau newydd mewn perthynas â'r canlynol: atgyfnerthu trefniadau cydweithio â gwasanaethau gofal sylfaenol a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau; gyda rhaglenni arbenigol ar gyfer carchardai fel cymunedau therapiwtig a llwybrau datblygiad personol i droseddwyr; a gwybodaeth am egwyddorion gofal wedi'i lywio gan drawma.

Yn dilyn adborth gan dimau a swyddogion carchardai, rydym yn rhagweld y caiff y safonau newydd eu cyflwyno fesul cam, gan ddefnyddio 2022 fel blwyddyn interim ar gyfer eu rhoi ar waith.

Felly, caiff **Safonau ar gyfer Cyflyrau Penodol** ar gyfer iechyd meddwl eu datblygu drwy ddull rhwydwaith gan ddysgu gan dimau carchardai yng Nghymru. Maent yn cynnwys Anafiadau i'r Ymennydd, Anableddau Dysgu, Awtistiaeth, Dementia a Gofal mewn Argyfwng. Fel y gwelwch, mae safonau rhagarweiniol a dulliau o gefnogi gofal ar gyfer cyflyrau penodol wedi'u cynnwys yn y Safonau Cyffredinol.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod ffrydiau gwaith ychwanegol y Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd mewn Carchardai (camddefnyddio sylweddau a datblygu Fframwaith Triniaethau newydd ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau, rheoli meddyginiaethau, a rôl amgylchedd ehangach carchardai wrth gefnogi iechyd a llesiant) a safonau cyfunol ar gyfer iechyd mewn carchardai yn gyson ac yn hawdd i dimau carchardai eu deall.

Mae Amgylcheddau Galluogi yn lleoliadau lle rhoddir pwyslais ar greu amgylchedd cymdeithasol cadarnhaol ac effeithiol a lle ystyrir bod cydberthnasau iach yn allweddol i sicrhau llwyddiant¹². Mae lleoliadau galluogi yn creu mwy o gyfleoedd a gwell canlyniadau i bawb sydd yno. Maent yn creu staff mwy bodlon a mwy cynhyrchiol; gwell canlyniadau i dderbynwyr unigol; ac yn helpu pawb i gyfrannu mwy a chyrraedd eu llawn botensial.

Mae'r gwerthoedd hyn yn dibynnu ar ei gilydd am ystyr ac eglurder. Yn unigol, bydd pob gwerth yn gwella amgylchedd, ond dim ond pan fydd pob un yn cydweithio y caiff Amgylchedd Galluogi ei greu. Caiff pob un o'r 10 o werthoedd eu diffinio gan safon, ac am bob safon ceir meini prawf sy'n cynnig ffyrdd y gall gwasanaethau gyrraedd y safon honno.

Mae ein fframwaith ar gyfer unrhyw un sydd am sicrhau bod ei leoliad yn fwy galluogol a chadarnhaol. Mae'n hyblyg a gellir ei addasu ar gyfer unrhyw wasanaeth neu leoliad. Gan ddefnyddio'r fframwaith, gallwch wella ansawdd cydberthnasau yn eich gwasanaeth a helpu pawb i deimlo'n fwy bodlon ac yn iachach.

¹ [The Perceived Impact of the Enabling Environments Programme within Her Majesty's Prison and Probation Service Settings](#)

² [Evidence-based reasons for embedding 'Enabling Environments' relational practice into the Criminal Justice System](#)

Perthyn	
1	Mae natur ac ansawdd cydberthnasau yn hollbwysig
1.1	Mae Derbynwyr a Darparwyr yn cefnogi newydd-ddyfodiaid i ryngweithio ag eraill
1.2	Mae cyfleoedd i Dderbynwyr a Darparwyr ddod i adnabod ei gilydd
1.3	Mae ffyrdd o nodi pan fydd pobl yn gadael
1.4	Mae'r sefydliad yn helpu pawb i feithrin cydberthnasau da
Ffiniau	
2	Ceir disgwyliadau o ran ymddygiad a phrosesau ar gyfer cynnal ac adolygu'r disgwyliadau hynny
2.1	Gall pawb ddisgrifio'r disgwyliadau a sut y cânt eu cynnal
2.2	Mae dull cyson o roi'r disgwyliadau hyn ar waith
2.3	Mae proses ar gyfer adolygu disgwyliadau sy'n cynnwys Derbynwyr a Darparwyr
Cyfathrebu	
3	Caiff pawb gymorth i gyfathrebu mewn ffyrdd sy'n sicrhau y gwrandewir arnynt ac y cânt eu clywed
3.1	Caiff pawb gymorth i gyfathrebu'n effeithiol
3.2	Mae cyfleoedd i Dderbynwyr a Darparwyr drafod pam bod pobl yn ymddwyn mewn gwahanol ffyrdd
3.3	Caiff gwahaniaethau diwylliannol a phersonol o ran dulliau cyfathrebu eu cydnabod a'u gwerthfawrogi

Datblygiad	
4	Cynigir cyfleoedd o ran hunanddatblygiad a thwf a chefnogir hynny
4.1	Mae cyfle i fod yn ddigymell a chefnogir hynny gan reolwyr
4.2	Gall pawb roi cynnig ar bethau newydd
4.3	Caiff pawb gymorth i ddeall y cyfleoedd a'r heriau sy'n gysylltiedig â chymryd risgiau
4.4	Caiff Derbynwyr a Darparwyr eu cynnwys yn y gwaith o gyfrannu at ddatblygiad eraill
Cyfranogiad	
5	Mae pawb yn rhannu cyfrifoldeb dros yr amgylchedd
5.1	Mae Derbynwyr a Darparwyr yn cyflawni amrywiaeth o rolau a chyfrifoldebau er mwyn cefnogi'r amgylchedd
5.2	Caiff Derbynwyr a Darparwyr eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio eu datblygiad eu hunain
5.3	Ceir strwythurau rheoli clir sy'n helpu Derbynwyr a Darparwyr i wneud cyfranogiad ystyrlon
Diogelwch	
6	Mae cymorth ar gael er mwyn helpu pawb i deimlo'n ddiogel yn emosiynol
6.1	Mae'n dderbyniol i unrhyw un deimlo'n agored i niwed ac mae cymorth emosiynol ar gael yn hawdd
6.2	Mae pawb yn teimlo bod eraill o'u cwmpas yn gwrando arnynt ac yn eu deall
6.3	Mae pawb yn cael cyfle rheolaidd i fyfyrion ar y ffordd y mae'r amgylchedd yn effeithio arnynt

6.4	Caiff cymorth gan gymheiriaid ei gydnabod, ei werthfawrogi a'i annog
Strwythur	
7	Caiff unigolion eu hannog i ymgysylltu a chymryd rhan mewn gweithgareddau pwrpasol
7.1	Mae gan Dderbynwyr a Darparwyr drefn ddyddiol adeiladol
7.2	Ceir strwythur cyson a gaiff ei adolygu'n rheolaidd
7.3	Caiff Derbynwyr a Darparwyr gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon
Grymuso	
8	Caiff pawb eu hannog i ddatblygu eu hawdurdod personol
8.1	Gall Derbynwyr a Darparwyr herio penderfyniadau a gofyn cwestiynau
8.2	Mae cyfleoedd i drafod pŵer ac awdurdod
8.3	Gellir rhoi syniadau Derbynwyr a Darparwyr ar waith
8.4	Mae Derbynwyr a Darparwyr yn deall sut a pham y gwneir penderfyniadau
Arweinwyr	
9	Mae'r arweinwyr yn cymryd cyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal diwylliant galluogi
9.1	Mae'r uwch-arweinwyr yn gwneud ymrwymiad penodol i hyrwyddo diwylliant o lesiant
9.2	Mae arweinwyr yr amgylchedd yn deall sut i ddatblygu a chefnogi diwylliant galluogi

9.3	Mae Derbynwyr a Darparwyr yn teimlo bod y tîm arwain yn eu cefnogi
9.4	Mae'r rheini â rôl arwain yn hawdd mynd atynt
9.5	Caiff newid ei reoli mewn ffordd sy'n cydnabod yr effaith ar Dderbynwyr a Darparwyr
Bod yn Agored	
10	Mae'r amgylchedd yn flaengar ac yn barod i ddysgu
10.1	Mae'r amgylchedd yn croesawu ymwelwyr
10.2	Caiff pawb eu cefnogi i feithrin cydberthnasau a chymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r amgylchedd
10.3	Caiff pawb eu hannog i fod yn agored ac yn ymatebol i gyfleoedd gwerthuso a dysgu

Derbyn ac Asesu		Hanfo dol	Disg wylie dig	Dymu nol	Cyfeirnod	Canllawiau
1	Fel rhan o'r broses derbyn a sefydlu ffurfiol, mae pob unigolyn yn cael asesiad iechyd cam cyntaf ac ail gam sy'n cynnwys elfen sgrinio iechyd meddwl (canllaw 66 NICE, 2017).	x				Mae hyn yn cynnwys cwestiynau a chamau gweithredu sy'n ymwneud ag anableddau dysgu ac anhwylderau niwroddatblygiadol
2	Mae pob ymarferydd sy'n cynnal yr asesiadau iechyd meddwl cychwynnol yn gymwys i asesu problemau sy'n codi'n rheolaidd, ac yn meddu ar wybodaeth am ddiagnosisau iechyd meddwl a llwybrau o fewn y gwasanaeth ac ymwybyddiaeth ohonynt (canllaw 66 NICE, 2017).	x				
3	Yn ystod yr asesiad iechyd meddwl cychwynnol, bydd unigolion dros 50 oed yn cael asesiad i oedolion hŷn, a chaiff addasiadau rhesymol eu gwneud lle bo angen.		x			Gall fod angen i gleifion gael adolygiad iechyd corfforol llawn gan feddyg teulu neu asesiad iechyd meddwl llawn arall gan seiciatrydd er mwyn nodi cyflyrau hirdymor, nam gwybyddol cynnar neu i'w hatgyfeirio at dîm gofal cymdeithasol er mwyn gallu cynllunio gofal hirdymor.
4	Mae proses glir a chyson ar gael i'r staff yn y carchar atgyfeirio unigolion yn uniongyrchol at y tîm iechyd meddwl.	x				
5	Mae aelod o'r staff clinigol ar gael i drafod atgyfeiriadau brys yn ystod oriau gwaith.	x				

6	Caiff asesiadau brys/argyfwng eu cynnal gan y tîm o fewn 48 awr a chaiff asesiadau arferol eu cynnal o fewn 5 diwrnod gwaith.	x				
7	Caiff cleifion asesiad cynhwysfawr ar sail tystiolaeth lle caiff y canlynol eu hystyried: • Eu hiechyd meddwl a'u meddyginiaeth; • Eu hanghenion seicogymdeithasol a seicolegol; • Eu cryfderau a'u meysydd i'w datblygu; • Y risg iddyn nhw eu hunain ac i eraill; • Eu hanableddau deallusol a datblygiadol; • Camddefnyddio sylweddau	x				Defnyddir adnoddau asesu iechyd meddwl safonol sy'n cydymffurfio â chanllawiau y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE).
8	Gall y gweithiwr proffesiynol sy'n cynnal yr asesiad weld nodiadau am y claf (nodiadau o'r gorffennol a nodiadau cyfredol) o ran gofal sylfaenol, gofal eilaidd a gwasanaethau perthnasol eraill (canllaw 66 NICE, 2017).			x		Dylid cyrchu nodiadau, gan gynnwys y nodiadau sydd ar gael gan wasanaethau cymunedol, ar gyfer pob claf sy'n hysbys i'r gwasanaethau iechyd meddwl ac y mae nodiadau ar gael ar ei gyfer, gan gynnwys pa mor gyfredol yw'r wybodaeth a sut y cafodd ei chasglu
9	Mae gan gleifion asesiad risg a chynllun rheoli wedi'u llunio ar y cyd, a gaiff eu diweddarau'n rheolaidd a'u rhannu lle bo angen ag asiantaethau perthnasol (gan ystyried cyfrinachedd). Mae'r asesiad yn ystyried y risg i'r claf ei hun, y risg i eraill a'r risg gan eraill.	x				
10	Caiff cleifion eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu eu hasesiadau risg a'u cynlluniau rheoli.			x		
11	Mae gan bob claf gofal eilaidd ddiagnosis wedi'i	x				Mae'r trefniant yn cynnwys y

	ddogfennu a threfniant clinigol. Lle nad oes asesiad wedi'i gwblhau, caiff diagnosis gweithredol a threfniant rhagarweiniol eu llunio.					broblem ar y pryd a ffactorau rhagdueddol, byrbwyllol, gwaethybol ac amddiffynnol fel y bo'n briodol.
12	Caiff yr holl wybodaeth ei rhoi i gleifion ar ffurf y gallant ei deall yn hawdd.	x				Mae hyn yn cynnwys gwahanol ieithoedd, a fformatau hawdd i'w darllen / ar ffurf lluniau. Defnyddir dulliau cyfathrebu cynhwysol er mwyn sicrhau bod cleifion yn deall gwybodaeth allweddol.
13	Mae'r gwasanaeth yn darparu gwybodaeth am sut i atgyfeirio unigolion a'r amseroedd aros ar gyfer asesiadau a thriniaeth.	x				Caiff y wybodaeth hon ei darparu i'r claf ac i asiantaethau sy'n gwneud atgyfeiriadau rheolaidd.
14	Rhoddir gwybodaeth ysgrifenedig hygyrch i gleifion a bydd aelodau o'r staff yn trafod y wybodaeth honno â nhw cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.	x				Gall y wybodaeth gynnwys y canlynol: • Eu hawliau o ran cael eu derbyn i'r ysbyty a chydsynio i driniaeth; • Hawliau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl; • Sut i gael gafael ar wasanaethau eiriolaeth; • Sut i gael gafael ar ail farn; • Gwasanaethau dehongli; • Sut i weld eu cofnodion; • Sut i godi pryderon, gwneud cwynion a chanmol.
15	Mae system glir ar gyfer rheoli atgyfeiriadau.	x				

<i>Y trefniadau ar gyfer asesu unigolion sydd wedi defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd yn y gorffennol</i>						
16	Mae partneriaid iechyd meddwl lleol yn cymryd pob cam rhesymol i gytuno ar drefniadau ar gyfer ymateb i geisiadau am asesiadau gan unigolion sydd wedi defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd yn y gorffennol ac ar gyfer gwneud atgyfeiriadau yn dilyn asesiadau o'r fath – Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010).	X				
17	Caiff y trefniadau eu gwneud ar ffurf ysgrifenedig. Ar ôl cytuno ar y trefniadau cychwynnol a'u cyflwyno ar ffurf ysgrifenedig, gellir wedyn eu newid, ar yr amod y bydd y partneriaid yn cytuno i hynny ac yn cofnodi'r newidiadau yn ysgrifenedig.	X				
18	Dylai'r trefniadau sicrhau y caiff asesiadau eu darparu mewn modd amserol, a ddylai fod yn gyson â'r amseroedd ymateb ar gyfer ceisiadau am asesiadau gan feddygon teulu neu atgyfeirwyr eraill. Gall partneriaid iechyd meddwl lleol gynnwys safonau ar gyfer amseroedd ymateb ar gyfer asesiadau fel rhan o'u trefniadau ysgrifenedig. Lle y caiff amseroedd ymateb o'r fath eu cynnwys, disgwylir y dylent o leiaf gyfateb i'r safonau arferol ar gyfer timau iechyd meddwl cymunedol – sef y caiff atgyfeiriadau argyfwng eu gweld o fewn 4 awr i'r cais, y caiff atgyfeiriadau brys eu gweld o fewn 48 awr i'r cais, ac y caiff pob atgyfeiriad arall ei weld o fewn 28 diwrnod i'r cais.	x				
19	Rhaid i unrhyw fethiant i gytuno ar drefniadau ddilyn protocol fel y'i dynodir yng Nghod Ymarfer 2012,	x				

	Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010					
	Canllawiau: Lle y caiff unigolyn sydd wedi cael gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd tra roedd yn y carchar yng Nghymru ei ryddhau o'r carchar, gan ddechrau preswyllo neu ddychwelyd i breswyllo fel arfer yng Nghymru, bydd hefyd yn gymwys i gael asesiad gan wasanaethau iechyd meddwl eilaidd yn ardal yr awdurdod lleol y mae'n preswyllo ynddi fel arfer ar yr adeg y bydd yn gwneud y cais hwnnw.					
	Canllawiau: Lle cafodd unigolyn wasanaethau iechyd meddwl eilaidd mewn carchar y tu allan i Gymru, bydd ei gymhwystra i gael asesiad pellach yn dibynnu ar b'un a gaiff y gwasanaethau hynny eu cydnabod at ddibenion Rhan 3 fel gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.					

Triniaeth a Gwella		Hanfo dol	Disgw yliedi g	Dymu nol	Cyfeirnod	Canllawiau
20	Mae gan bob claf gynllun gofal ysgrifenedig, sy'n adlewyrchu ei anghenion unigol. Mae aelodau o'r staff yn cydweithio â chleifion wrth ddatblygu eu cynllun gofal a chynigir copi ohono iddynt. Mae hyfforddiant ategol ar fesurau canlyniad ar gael drwy <u>Gwelliant Cymru</u>.	x				Mae'r cynllun gofal yn amlinellu'r canlynol yn glir: • Y strategaethau ymyrryd y cytunwyd arnynt ar gyfer iechyd corfforol ac iechyd meddwl; • Nodau a chanlyniadau mesuradwy; • Strategaethau hunanreoli;

						• Unrhyw flaengyfarwydddebau neu ddatganiadau y mae'r claf wedi'u gwneud; • Cynlluniau argyfwng a chynlluniau wrth gefn; • Dyddiadau adolygu a fframwaith rhyddhau.
21	Cynigir gwybodaeth i gleifion am eu cyflyrau iechyd meddwl a'r triniaethau mewn ffordd y gellir ei deall ac sy'n sicrhau y gellir cofio'r wybodaeth.	x				Gallai hyn fod ar ffurf lafar, ysgrifenedig neu ddigidol. Gellid darparu gwybodaeth lafar mewn cyfarfod un-i-un ag aelod o'r staff neu mewn grŵp seico-addysg. Dylid ysgrifennu'r holl wybodaeth ysgrifenedig gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu cynhwysol.
22	Rhoddir gwybodaeth i'r claf am yr ymyriad a gaiff ei gynnis a chaiff y risgiau a'r manteision eu trafod ag ef. Caiff hyn ei gofnodi yn y cofnodion clinigol.	x				
23	Caiff adolygiad iechyd corfforol ei gynnal fel rhan o'r asesiad cychwynnol, neu cyn gynted â phosibl.	x				Gall yr adolygiad hwn gael ei gwblhau gan y tîm iechyd corfforol, neu fel rhan o'r broses dderbyn
24	Caiff cleifion eu rheoli o dan y Model Gofal Fesul Cam i Bobl ag Anhwylderau Iechyd Meddwl Cyffredin (canllaw 41 NICE, 2011).			x		Mae'r model yn cyflwyno trosolwg integredig o'r asesiad a'r ymyriadau trin allweddol sy'n benodol i'r gwasanaeth.
25	Mae ymyriadau lefel isel (gan gynnwys camau 1 a 2 o'r Model Gofal Fesul Cam) ac amrywiaeth o therapïau seicolegol ar gael i gleifion. Caiff yr		x			Caiff yr ymyriadau a'r therapïau eu haddasu'n unol ag anghenion amgylchedd y carchar. Er

	ymyriadau hyn eu rhoi ar waith gan weithiwr iechyd meddwl proffesiynol sydd wedi'i hyfforddi'n briodol ac y mae cymorth priodol ar gael iddo.					enghraifft, mae amgylchedd remand yn cynnig sesiynau unigol a chymorth seico-addysg.
26	Mae cleifion yn dechrau ymyriadau ar sail tystiolaeth, sy'n briodol ar gyfer eu hanghenion bioseicolegol, o fewn amserlen y cytunwyd arni	x				
27	Mae'r tîm yn trefnu cyfarfod o leiaf unwaith yr wythnos i drafod sut i ddyrannu atgyfeiriadau, asesiadau cyfredol ac adolygiadau.	x				Gellir dyrannu atgyfeiriadau brys neu nad oes angen eu trafod cyn y cyfarfod.
28	Lle y bo'n berthnasol, dylai cleifion gael cyfarfod Cynllunio Gofal a Chymorth Personol cychwynnol o fewn y 28 diwrnod cyntaf, ar ôl tri mis a bob chwe mis wedi hynny, neu pa bryd bynnag y bydd cyfnod trosglwyddo pwysig.	x				Gallai'r adolygiad fod yn rhan o'r Dull Rhaglen Ofal (CPA), Hyrwyddo Gofal o Ansawdd (PQC), Cynllun Gofal a Thriniaeth (CTP) neu brosesau cyfatebol.
29	Lle y bo'n berthnasol, caiff cleifion eu cefnogi i gymryd rhan lawn yn yr asesiad o'u hanghenion iechyd meddwl eilaidd yn ystod y broses adolygu ffurfiol. (Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, 2020)			x		Gallai'r adolygiad fod yn rhan o'r Dull Rhaglen Ofal (CPA), Hyrwyddo Gofal o Ansawdd (PQC), Cynllun Gofal a Thriniaeth (CTP) neu brosesau cyfatebol.
30	Ar gyfer unrhyw adolygiad ffurfiol o gleifion fel rhan o'r llwyth achosion gofal eilaidd, dylid cynnwys o leiaf gynrychiolydd o'r tîm iechyd meddwl mewn carchardai a'r carchar. Dylid gwahodd y tîm iechyd meddwl cymunedol lleol.	x				Gallai'r adolygiad fod yn rhan o'r Dull Rhaglen Ofal (CPA), Hyrwyddo Gofal o Ansawdd (PQC), Cynllun Gofal a Thriniaeth (CTP) neu brosesau cyfatebol.
31	Mae'r tîm yn olrhain cleifion sy'n methu apwyntiad/asesiad. Os na fydd cleifion yn gallu ymgysylltu, bydd yr aseswr/tîm yn penderfynu am ba hyd y dylid olrhain y claf, yn seiliedig ar angen a risg y claf. Caiff hyn ei ddogfennu'n glir yng nghofnodion	x				

	cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol ac yng nghofnodion cleifion.					
32	Mewn sefydliadau i fenywod, ceir llwybr gofal ar gyfer gofalu am fenywod yn ystod y cyfnod amenedigol (beichiogrwydd ac am 12 mis ar ôl geni) sy'n cynnwys y canlynol: • Asesu; • Gofal a thriniaeth (yn enwedig o ran rhagnodi meddyginiaeth seicotropig); • Atgyfeirio at dîm/uned amenedigol arbenigol onid oes rheswm penodol dros beidio â gwneud hynny.	x				

Rhyddhau a Throsglwyddo		Hanfo dol	Disgw yliedi g	Dymu nol	Cyfeirnod	Canllawiau
33	Mae'r broses ar gyfer atgyfeirio a throsglwyddo cleifion o dan Ran 3 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn dilyn y 'Good Practice Procedure Guide' (NHSE, 2021)	x				
34	Pan gaiff claf ei drosglwyddo i sefydliad arall, mae'r tîm iechyd meddwl yn darparu gwybodaeth drosglwyddo gynhwysfawr i dîm iechyd meddwl y sefydliad sy'n derbyn y claf cyn iddo gael ei drosglwyddo.	x				Lle na fydd achos o drosglwyddo yn hysbys, caiff y wybodaeth drosglwyddo ei rhoi i'r tîm sy'n derbyn y claf cyn gynted ag y bydd yn ymwybodol o'r trefniant
35	Gwahoddir gweithiwr allweddol a/neu glinigydd cyfrifol penodedig o'r gwasanaeth sy'n derbyn i gyfarfodydd i gynllunio ar gyfer rhyddhau'r claf. Mae	x				Gallai'r adolygiad fod yn rhan o'r Dull Rhaglen Ofal (CPA), Hyrwyddo Gofal o Ansawdd

	hyn yn cynnwys adolygiad gofal ffurfiol i gleifion sy'n rhan o lwyth achosion gofal eilaidd.					(PQC), Cynllun Gofal a Thriniaeth (CTP) neu brosesau cyfatebol
36	Ceir proses drosglwyddo gadarn naill ai i'r carchar sy'n derbyn y claf neu i'r tîm iechyd meddwl cymunedol i gleifion y mae angen gofal parhaus a chymorth dilynol arnynt ar ôl cael eu rhyddhau neu eu trosglwyddo.	x				
37	Ar ôl i'r tîm ryddhau claf, rhoddir gwybodaeth am y claf i'r gwasanaeth gofal sylfaenol neu'r gwasanaeth gofal iechyd meddwl sy'n derbyn y claf hwnnw.	x				
38	Mae'r tîm yn cysylltu â'r claf a/neu'r cydlynnydd gofal/darparwr gwasanaeth newydd o fewn 14 diwrnod i ryddhau/trosglwyddo'r claf o'r sefydliad.			x		Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu'n bersonol, dros y ffôn, drwy e-bost neu'n ysgrifenedig. Gall hon fod yn dasg weinyddol

Diogelwch		Hanfo dol	Disgw yliedig	Dymu nol	Cyfeirnod	Canllawiau
39	Mae'r tîm iechyd meddwl yn cael ei gynnwys ym mhroses y carchar ar gyfer rheoli achosion o hunan-niwed a hunanladdiad. Bydd aelodau'r tîm yn mynychu cyfarfodydd adolygu ar gyfer pob achos newydd, ar gyfer pob adolygiad ar gyfer unrhyw un sy'n rhan o'u llwyth achosion, a lle y bo angen a'i bod yn berthnasol iddynt fynychu.	x				Mae hyn yn cyfeirio at Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm (ACCT), SPAR Evolution neu brosesau cyfatebol.
40	Mae cynrychiolydd o'r tîm iechyd meddwl yn mynychu cyfarfod llywodraethu'r carchar er mwyn		x			

	helpu'r carchar i ymdrin ag achosion o hunan-niwed a hunanladdiad, e.e. Cyfarfod Diogelwch ac Ymyriadau (SIM)					
41	Mae proses glir i'w dilyn wrth ymweld â chleifion y tu allan i ystafelloedd clinigol er mwyn sicrhau bod y staff yn teimlo'n ddiogel wrth weithio gyda chleifion.	x				
42	Mae'r tîm yn rhannu unrhyw wybodaeth a allai effeithio ar ddiogelwch claf â'r asiantaethau a'r lleoliadau gofal perthnasol, gan ystyried terfynau cyfrinachedd a chydysyniad y claf.	x				
43	Mae aelodau o'r staff yn dilyn protocolau rhyngasiantaeth ar gyfer diogelu pobl ifanc ac oedolion agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys uwchgyfeirio pryderon os ceir ymateb annigonol i atgyfeiriad diogelu.	x				
44	Mae'r tîm yn deall polisïau ar wrthod bwyd ac asesiadau galluedd meddyliol ac yn ymgysylltu â nhw.		x			
45	Mae'r tîm yn deall polisïau ar Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) ac yn ymgysylltu â nhw		x			Er enghraifft, Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA), Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Gogledd Iwerddon (PPANI) neu drefniadau cyfatebol.
46	Gall aelodau'r tîm, gan gynnwys staff banc a staff asiantaeth, nodi a rheoli argyfwng iechyd corfforol aciwt.	x				Fel CPR cychwynnol.
47	Pan gaiff camgymeriadau eu gwneud o ran gofal, fe'u	x				

	trafodir â'r claf ei hun yn unol â'r cytundeb Dyletswydd Gonestrwydd (neu gytundeb cyfatebol).					
--	--	--	--	--	--	--

Profiad Cleifion		Hanfo dol	Disgw yliedig	Dymu nol	Cyfeirnod	Canllawiau
48	Caiff cleifion eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau ar y cyd am gynllunio eu gofal iechyd meddwl a chorfforol, eu triniaeth a threfniadau ar gyfer eu rhyddhau a'u helpu i hunanreoli.	x				
49	Mae'r gwasanaeth yn gofyn am adborth gan gleifion am eu profiadau o ddefnyddio'r gwasanaeth a chaiff yr adborth hwn ei ddefnyddio i wella'r gwasanaeth.		x			Gallai hyn gynnwys arolygon cleifion neu grwpiau ffocws.
50	Caiff cleifion eu trin â thrugaredd, urddas a pharch.	x				Mae hyn yn cynnwys parchu hil, oedran, rhyw, aibennu rhywedd, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, mamolaeth, anabledd a chefnidir cymdeithasol claf.
51	Mae cleifion yn teimlo bod aelodau o'r staff yn gwrando arnynt ac yn eu deall.	x				Gwneir ymdrechion ac addasiadau i gleifion ag anawsterau cyfathrebu.
52	Caiff cyfrinachedd a'i derfynau eu hesbonio i'r claf ar lafar a chynigir gwybodaeth ysgrifenedig. Caiff dewisiadau cleifion o ran rhannu gwybodaeth â 3ydd partïon eu parchu a chânt eu hadolygu'n rheolaidd.	x				
53	Caiff cydsyniad y claf i rannu gwybodaeth glinigol y tu allan i'r tîm ei gofnodi. Os na cheir cydsyniad,	x				

	cofnodir y rhesymau dros hynny.					
54	Mae cleifion yn gwybod pwy sy'n cydgysylltu eu gofal a sut i gysylltu â'r unigolyn hwnnw os bydd ganddynt unrhyw gwestiynau	x				
55	Mae'r gwasanaeth yn defnyddio dehonglwyr sy'n meddu ar ddigon o wybodaeth a sgiliau i ddarparu cyfieithiad llawn a chywir.		x			
56a	Mae'r gwasanaeth yn ymgysylltu â rhaglenni a phartneriaid fel Cynllun Ardystio Arferion Da yn y Gweithle o ran Cymhwysedd Diwylliannol Diverse Cymru er mwyn sicrhau bod yr ystad carchardai yn deall ei phoblogaeth amrywiol ac yn darparu ar ei chyfer.	x				
56b						

Partneriaethau Cydweithredol		Hanfo dol	Disgw ylledig	Dymu nol	Cyfeirnod	Canllawiau
57	Mae gan y tîm bolisi ar drefniadau gweithio rhyngasiantaeth ar draws y system cyfiawnder troseddol, gofal cymdeithasol, gofal iechyd corfforol a'r trydydd sector o fewn terfynau cydsyniad cleifion, cyfrinachedd a rheoli risg.		x			Lle bo modelau gofal iechyd integredig ar waith, bydd y polisi yn nodi manylion trefniadau gweithio a chydweithio amlbroffesiynol effeithiol.
58	Mae polisiâu ysgrifenedig ar waith ar gyfer cyswllt a threfniadau cydweithio â gwasanaethau		x			Gall fod ar ffurf polisi unigol neu wedi'i gynnwys fel rhan o bolisi

	camddefnyddio sylweddau a gofal sylfaenol mewn achosion o gydafiachedd yn unol â chanllaw 57 (2016) a chanllaw 66 (2017) NICE .					gweithredol ehangach.
59	Cynhelir cyfarfodydd gofal cymhleth neu aml-lwybr rheolaidd sy'n cynnwys y tîm iechyd meddwl, gofal sylfaenol a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau er mwyn rhannu gwybodaeth a datblygu cynlluniau rheoli.			x		
60	Mae cytundebau contract ar waith ar gyfer cydweithio â gofal sylfaenol er mwyn sicrhau safonau uchel o ofal iechyd corfforol a gofal iechyd meddwl i gleifion â phroblemau iechyd corfforol ac iechyd meddwl cydafiach.		x			Lle bo modelau gofal iechyd integredig ar waith, mae rolau a chyfrifoldebau wedi'u hamlinellu'n glir ar gyfer cleifion â chyflyrau cydafiach.
61	Mae'r tîm yn deall polisïau ar gyflwyno gwybodaeth yn unol â system adrodd diogelwch y sefydliad ac yn ymgysylltu â nhw.		x			
62	Mae polisi cydweithio rhwng y sefydliad, gofal sylfaenol, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a'r tîm iechyd meddwl ar reoli achosion o gamddefnyddio sylweddau a rheoli sylweddau.		x			Lle bo modelau gofal iechyd integredig ar waith, mae rolau a chyfrifoldebau wedi'u hamlinellu'n glir ar gyfer cleifion sydd o dan ofal amrywiol dimau.
63	Mae'r tîm yn cefnogi'r sefydliad o ran darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o iechyd meddwl i staff y carchar yn unol â chanllaw 66 NICE (2017) .		x			Gallai hyn gynnwys cynnwys y tîm yn uniongyrchol wrth gyflwyno sesiynau hyfforddiant, neu ofyn i'r tîm gyfrannu wrth ddatblygu cynnwys yr hyfforddiant a'r deunyddiau dysgu.
64	Lle ceir ymyriadau arbenigol mewn carchardai, ceir		x			Gallai hyn gynnwys llwybrau

	protocol cydweithio, ac mae trefniadau a rennir a chyfarfodydd ar y cyd ar waith.					Anhwylderau Personoliaeth Troseddwy (OPD), Amgylcheddau Cynlluniedig ar sail Seicoleg (PIPES) a Chymunedau Therapiwtig.
--	---	--	--	--	--	---

Rheoli Meddyginiaethau		Hanfo dol	Disg wylie dig	Dymun ol	Cyfeirnod	Canllawiau
65	Pan gaiff meddyginiaeth ei rhagnodi, caiff nodau trin penodol eu pennu gyda'r claf, caiff y risgiau (gan gynnwys achosion o ryngweithio) a'r manteision eu hadolygu, caiff amserlen ei phennu ar gyfer ymateb a chaiff cydsyniad y claf ei gofnodi.	x				
66	Caiff y defnydd diogel o feddyginiaeth risg uchel ei archwilio ar lefel y gwasanaeth o leiaf unwaith y flwyddyn.	x				Mae hyn yn cynnwys meddyginiaethau fel lithiwm, cyffuriau gwrthseicotig dos uchel, cyffuriau gwrthseicotig mewn cyfuniad, bensodiasepinau, gabapentinoidau ac ysgogwyr ar gyfer ADHD.
67	Caiff cyfraddau rhagnodi seicotropig (cyffuriau gwrthiselder, cyffuriau gwrthseicotig, ADHD, cyffuriau ancsiolyteg, cyffuriau hypnoteg) eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd.			x		Mae hyn yn cynnwys adroddiadau rheolaidd gan dîm y fferyllfa, a chaiff canfyddiadau eu trafod mewn cyfarfodydd lleol neu gyfarfodydd cyfarwyddiaeth.
68	I gleifion y rhagnodir meddyginiaeth iddynt, caiff		x			

	adolygiadau meddyginiaeth blynyddol eu cynnal (canllaw 5 NICE, 2015 ; canllaw 87 NICE, 2018)					
69	Mae system ar waith ar gyfer cofnodi achosion o ddiffyg cydymffurfio â meddyginiaeth.	x				Mae canllawiau ar gael i'r tîm ar reoli meddyginiaeth a sut i ymdrin ag achosion o ddiffyg cydymffurfio.
70	Caiff cydymffurfiaeth â meddyginiaeth ei chofnodi fel rhan o gynllun gofal y claf a chaiff ei hadolygu bob mis, neu'n amlach lle bo angen.	x				Mae'r tîm yn bwrw ati mewn ffordd ragweithiol i olrhain cleifion sy'n methu â chasglu neu gymryd eu meddyginiaeth a chaiff hyn ei gynnwys yn eu cynllun gofal
71	Ceir protocolau ysgrifenedig clir sy'n amlinellu cyfrifoldebau rhagnodi rhwng seiciatryddion, meddygon teulu a nyrsys sy'n rhagnodi.		x			Mae clinigwyr yn cyfeirio at ' Safer Prescribing in Prisons: Guidance for Clinicians, Second Edition ' (RCGP, 2019).

Amgylchedd		Hanfo dol	Disg wylie dig	Dymun ol	Cyfeirnod	Canllawiau
72	Gall cleifion fynychu apwyntiadau gyda'r tîm ar yr amser a drefnwyd ar gyfer yr apwyntiad.		x			
73	Ceir ystafelloedd dynodedig i'r tîm gynnal clinigau a sesiynau unigol.		x			
74	Ceir ystafelloedd dynodedig i'r tîm gynnal sesiynau		x			

	grŵp.					
75	Mae pob ystafell gyfweld yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod ystafelloedd wedi'u lleoli'n agos at ardaloedd lle ceir aelodau o staff, sicrhau bod system galw mewn argyfwng ar waith, bod ffenestr archwilio fewnol ac nad oes unrhyw beth yn rhwystro'r allanfa. Nid oes eitemau y gellir eu defnyddio'n hawdd fel arfau.		x			
76	Mae'r ystafelloedd clinigol yn breifat ac nid oes modd clywed sgysiau yn hawdd o'r tu allan.	x				
77	Mae gan y tîm fannau ac ystafelloedd cyfarfod dynodedig ar gyfer gwaith cyfrinachol.	x				
